| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD:** | **17, MAI, 2012** |
| **PWNC:** | **CYFLOGAU AELODAU.** |
| **AWDUR:** | **DILYS PHILLIPS,<br>PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL.** |

1. Ar gyfer 2012/13 a'r blynyddoedd dilynol mae cyflogau cynghorwyr i'w talu yn unol â phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cyhoeddodd y Panel ei adroddiad yn manylu ar y cyflogau yn Rhagfyr 2011.

2. Daw penderfyniadau'r Panel i rym yn dilyn etholiadau fis Mai. Bryd hynny bydd y cyflogau canlynol yn daladwy :

| | | |
|---|---|---|
| Cynghorydd cyffredin | £13,175 | (Cyflog sylfaenol) |
| Arweinydd y Cyngor | £47,500 | (Uwch Gyflog) |
| Dirprwy Arweinydd y Cyngor | £33,460 | (Uwch Gyflog) |
| Aelod o'r Cabinet | £28,780 | (Uwch Gyflog) |
| Cadeirydd Pwyllgor | £21,910 | (Uwch Gyflog) |
| Arweinydd Grŵp Gwleidyddol | £16,920 | (Uwch Gyflog) |
| Cadeirydd y Cyngor | £21,375 | (Cyflog Dinesig) |
| Is-gadeirydd y Cyngor | £16,625 | (Cyflog Dinesig) |

3. Nid oes gan y Cyngor hawl i newid y symiau yma. Mae gan aelodau unigol hawl i hepgor y cyfan neu ran o'u cyflog pe dymunent.

4. Mae pum dosbarth o aelodau sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog, sef :

   Arweinydd y Cyngor
   Dirprwy Arweinydd y Cyngor
   Aelod o'r Cabinet
   Cadeirydd Pwyllgor
   Arweinydd Grŵp Gwleidyddol

5. Cyfyngir nifer yr uwch gyflogau y gellir eu talu i 18. Mae angen i'r Cyngor newydd benderfynu pa swyddi sydd yn gymwys i dderbyn yr uwch gyflogau.

6. Gofynnwyd barn y Gweithgor Gwasanaethau Aelodau ar y dyraniad fis Mawrth 2012 fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Cyngor newydd.

7. Argymhelliad y Gweithgor oedd talu Uwch Gyflogau i Arweinydd a hyd at 9 aelod o'r Cabinet (gan gynnwys unrhyw Ddirprwy Arweinydd) ac i Gadeiryddion y 3 Pwyllgor Craffu; Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor Trwyddedu. Mae hyn yn dod a chyfanswm y cyflogau a delir i 16.

8. Argymhellir peidio â dyrannu'r 2 uwch gyflog sy'n weddill, am y tro, hyd y bydd Cyfansoddiad y Cyngor newydd a llwyth gwaith y gwahanol bwyllgorau'n glir ac adolygu'r mater yn ystod y flwyddyn.

9. **ARGYMHELLIAD.**

Gofynnir i'r Cyngor benderfynu :-

(a) Dyrannu uwch gyflog i'r swyddi canlynol :-

Arweinydd y Cyngor
Dirprwy Arweinydd os oes un
Aelodau'r Cabinet
Cadeiryddion y tri phwyllgor craffu
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu.

(b) Adolygu yn ystod y flwyddyn a oes angen dyrannu'r 2 uwch gyflog sy'n weddill.